**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (RHIF 2)**

**Y BIL DIODDEFWYR A CHARCHARORION**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Mawrth 2023. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 19 Mai 2023 a gellir dod o hyd iddo yn MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL (senedd.cymru)

3. Ar 4 Rhagfyr 2023, yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, cytunwyd ar 119 o welliannau gan y llywodraeth ac 1 gwelliant anllywodraethol. Cynigiodd Llywodraeth y DU gylch arall o welliannau ar 15 Ionawr 2024 i'w hystyried yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, ac mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer un o'r gwelliannau hyn. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cymalau diwygiedig hyn, gan gwmpasu'r gwelliannau perthnasol a wnaed yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ac yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

4. Ar 22 Rhagfyr 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd at y Llywydd yn egluro na fu'n bosibl gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol o fewn y terfyn amser arferol o bythefnos, yn unol â RhS29, yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Dim ond ar ôl iddynt gael eu cyflwyno y cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru weld yn derfynol y 119 o welliannau gan y llywodraeth a'r 1 gwelliant anllywodraethol, ac nid oedd yn bosibl iddynt eu dadansoddi o fewn y cyfnod o bythefnos.

5. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2023 sydd i'w weld yn: Victims and Prisoners Bill (parliament.uk)

## Yr amcan(ion) polisi

6. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw cyflawni tri ymrwymiad maniffesto allweddol; pasio a gweithredu Cod Dioddefwyr yn gyfraith, diwygio'r system barôl, a sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i gefnogi dioddefwyr digwyddiad mawr. Yn ogystal, mae'r Bil yn ceisio cyflwyno newidiadau sy'n ceisio cryfhau gweithrediad y Bwrdd Parôl a sicrhau hyder y cyhoedd yn y system. Bydd y Bil yn gwahardd carcharorion sy'n gwasanaethu gorchymyn oes gyfan rhag priodi neu ymgymryd â

phartneriaeth sifil tra byddant yn y carchar; mae'n ceisio codeiddio canllawiau ar gyfer rolau sy'n cefnogi dioddefwyr, a sefydlu corff i weinyddu'r cynllun iawndal ar gyfer dioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig.

**Crynodeb o'r Bil**

7. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

8. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dioddefwyr ymddygiad troseddol ac eraill y mae ymddygiad troseddol yn effeithio arnynt; penodi a swyddogaethau unigolion i weithredu fel eiriolwyr cyhoeddus annibynnol dros ddioddefwyr digwyddiadau mawr; diwygiadau i'r system barôl; aelodaeth a swyddogaethau'r Bwrdd Parôl; gwahardd rhai carcharorion rhag ffurfio priodas neu bartneriaeth sifil; ac at ddibenion cysylltiedig.

**Crynodeb o'r prif welliannau a wnaed yng Nghyfnodau Adrodd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi**

9. Pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin ar gyfres o welliannau yn ei Gyfnod Adrodd ar 4 Rhagfyr 2023, ac roedd rhai ohonynt yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd y Senedd. Roedd y gwelliannau a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU ar 15 Ionawr 2024 yn diwygio un o'r cymalau hyn ymhellach.

10. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, yn unol â'r gwelliannau arfaethedig sy'n dod o fewn ein cymhwysedd, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Rhagfyr 2023 ac 15 Ionawr 2024. Defnyddir rhifau'r cymalau pan fo'r rhain ar gael.

**Newidiadau i'r Bil ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) – gwelliannau i gymalau presennol sy'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

*Cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 - Victims of Criminal conduct – Victims’ code*

11. Gwnaeth Llywodraeth y DU sawl gwelliant i Ran 1 o'r Bil - *Victims of Criminal conduct – Victims’ code* yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r rhai sy'n berthnasol i'r cymalau yn cael eu cwmpasu gan y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn a'u hamlinellu isod.

12. Gwnaed gwelliant i gymal 1 i egluro y bydd ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd yn "ymddygiad troseddol" ("*criminal conduct*") at ddibenion Rhan 1 o'r Bil, pa un a yw'r drosedd wedi'i riportio ai peidio. Mae'r gwelliant hefyd yn diwygio adran 52(3)(a) o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 er cysondeb.

13. Gwnaed gwelliant i gymal 11 sy'n egluro ystyr "nodweddion gwarchodedig" ("*protected characteristics*") at ddibenion canllawiau ynghylch adolygu cydymffurfiaeth â'r cod dioddefwyr.

14. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) mae angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn ar y sail bod gwasanaethau diogelu, cymorth a gwybodaeth i ddioddefwyr yn feysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Hefyd, mae dyroddi canllawiau ar gyflawni dyletswyddau i awdurdodau datganoledig mewn perthynas â'r cod dioddefwyr yn dod o fewn cymhwysedd.

*Cymal 15 – Victims of criminal conduct: Guidance about independent domestic violence and sexual violence advisors:*

15. Gosododd Llywodraeth y DU welliant i gymal 15 yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin i egluro ystyr "nodweddion gwarchodedig" ("*protected characteristics*") at ddiben y canllawiau am y cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a'r cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol.

16. Gosodwyd gwelliant pellach gan y llywodraeth i gymal 15 yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a chytunwyd arno. Mae'r gwelliant yn newid y gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyroddi canllawiau i gynghorwyr annibynnol ar drais domestig a chynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol, i fod yn ofyniad i ddyroddi canllawiau i "rolau cymorth i ddioddefwyr" ("*victim support roles*") o fathau a bennir mewn rheoliadau.

17. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) mae cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y cymal hwn ar y sail ei fod yn gwneud darpariaeth o ran lles a diogelu, sy'n faterion datganoledig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau Cymreig datganoledig sydd â swyddogaethau perthnasol roi sylw i ganllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol. O'r herwydd mae'r darpariaethau hyn yn “ddarpariaethau perthnasol” at ddibenion RhS29.

*Rhan 2 - Cymalau 24-27 a 29-31 (fel y'u cyflwynwyd) - Victims of major incidents:*

18. Gosododd y DU nifer o welliannau gan y llywodraeth i Ran 2 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin sy'n gwneud Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ofynnol. Amlinellir y rhain isod.

- Cymal newydd i'w fewnosod ar ôl cymal 25 sy'n diwygio ystyr "digwyddiad mawr" ("*major incident*").
- Cymal newydd, i'w fewnosod cyn cymal 25 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi eiriolwr sefydlog i ymgymryd â swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â dioddefwyr digwyddiadau mawr ac eiriolwyr eraill a benodir mewn perthynas â digwyddiadau mawr.

- Gwelliant i gymal 25 i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i benodi'r eiriolwr sefydlog yn eiriolwr mewn perthynas â digwyddiad mawr penodol.
- Gwelliant i gymal 27 i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi eiriolwr arweiniol pan fo mwy nag un eiriolwr yn cael ei benodi mewn perthynas â digwyddiad mawr.
- Gwelliant i gymal 30 i'w gwneud yn ofynnol i'r eiriolwr sefydlog a benodir wneud adroddiadau blynyddol a gwelliant pellach i alluogi eiriolwr (neu'r eiriolwr arweiniol pan fo mwy nag un eiriolwr wedi ei benodi mewn perthynas â'r un digwyddiad) i adrodd yn ôl ei ddisgresiwn.
- Cymal newydd i'w fewnosod ar ôl cymal 30 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol adroddiadau a wnaed gan eiriolwr.
- Nifer o welliannau i gymal 31 sy'n ymwneud â chaniatadau a gofynion rhannu gwybodaeth ar gyfer eiriolwyr.
- Gwelliannau eraill canlyniadol i'r uchod.

19. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) mae angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn ar y sail eu bod yn ymwneud â maes datganoledig darparu gwasanaethau cymorth, cyfeirio, eirioli a lledaenu gwybodaeth. Hefyd, maent yn gosod gofynion adrodd ar yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol a'r Ysgrifennydd Gwladol y gallai Gweinidogion Cymru eu hefelychu mewn perthynas â Chymru.

**Newidiadau i'r Bil ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) - cymalau newydd sy'n sbarduno'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

20. Yn ogystal â gwneud gwelliannau i'r Bil, cyflwynodd Llywodraeth y DU gymalau newydd. Mae'r canlynol yn ddarostyngedig i'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

*Cymal 20 newydd - Domestic Homicide Reviews*

21. Mewnosodwyd Cymal 20 newydd ar ôl cymal 15 (fel y'i cyflwynwyd) ac mae'n ymwneud ag adolygiadau o farwolaethau yng Nghymru a Lloegr a allai fod yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Mae'n diwygio Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004 gan ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo person neu gorff penodedig i sefydlu adolygiad o farwolaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig a chymryd rhan mewn adolygiad o'r fath. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn diwygio adran 26 o Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022 (perthynas adolygiadau lladdiadau ag arf ymosodol â gofynion adolygu eraill).

22. Mae paragraff 34 o'r Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli '*Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales*' yn awgrymu bod Llywodraeth y DU o'r farn bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar gyfer gosod "swyddogaeth a gedwir yn ôl" ("*reserved function*") ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Felly, caiff y ddarpariaeth hon ei dwyn i sylw'r Senedd gan fod y cymal yn gosod cyfrifoldebau ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig i gynnal adolygiadau at ddiben dysgu gwersi am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer yr ymadawedig. Y farn yw y gallai'r Senedd ddeddfu mewn amgylchiadau tebyg gan mai'r diben yw dysgu gwersi am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer yr ymadawedig, yn hytrach na bod ynglŷn â'r ymddygiad troseddol ei hun (sy'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl). Fodd bynnag, ni allai'r Senedd osod y swyddogaethau hyn ar awdurdodau a gedwir yn ôl ac felly byddai cwmpas unrhyw ddarpariaeth gyfatebol yn gyfyngedig.

23. Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol osod swyddogaethau/gofynion ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig megis awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a sefydlir o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac ymddiriedolaethau'r GIG a sefydlir o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae'r cymal yn cynnwys pŵer i ychwanegu at y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddarpariaeth, sy'n golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ychwanegu Awdurdodau Cymreig Datganoledig pellach.

*Cymal 37 newydd – Prohibited steps order*

24. Cymal 37 newydd i'w fewnosod ar ôl cymal 15 yn diwygio Deddf Plant 1989 (i fewnosod adrannau 10A a 10B newydd), ac yn ei gwneud yn ofynnol i Lys y Goron wneud “gorchymyn camau gwaharddedig” (“*prohibited steps order*”) sy'n atal rhiant rhag gwneud penderfyniad am fagwraeth plentyn heb gymeradwyaeth neu ganiatâd penodol y llys, pan fo rhiant yn euog o lofruddiaeth neu ddynladdiad gwirfoddol y rhiant arall. Mae hefyd yn darparu i'r gorchymyn gael ei adolygu gan y llysoedd teulu.

25. Mae llysoedd yn parhau i fod yn gyfrifoldeb a gedwir yn ôl, ond mae adran 10B newydd o'r ddarpariaeth yn ymwneud ag adolygiadau o orchmynion a wneir o dan adran 10A, ac yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau lleol Cymru (hy Awdurdodau Cymreig Datganoledig) i adolygu'r gorchmynion ar ôl iddynt gael eu gwneud.

26. Fel y nodir uchod, mae paragraff 34 o'r Nodyn Cyfarwyddyd Datganoli '*Parliamentary and Assembly Primary Legislation affecting Wales*' yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd i osod "swyddogaeth a gedwir yn ôl" ("*reserved function*") ar Awdurdod Cymreig Datganoledig.

27. Mae'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol Cymru yn ymwneud ag adolygiadau o'r gorchmynion a wneir, yn hytrach na natur cyfrifoldeb rhiant a sut y caiff ei gaffael ac y gellir ei golli, gan fod y materion hyn yn faterion a gedwir yn ôl. Serch hynny, mae'r broses Memorandwm Cydsyniad

Deddfwriaethol wedi'i sbarduno ar gyfer y ddarpariaeth hon fel y nodir uchod, oherwydd yr effaith ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

**Gwelliannau anllywodraethol**

28. Cafodd un gwelliant anllywodraethol ei osod a'i dderbyn yn ymwneud ag iawndal i ddioddefwyr gwaed heintiedig.

*Cymal 40 newydd – Compensation for Infected Blood victims*

29. Cyflwynwyd Cymal 40 fel gwelliant anllywodraethol a osodwyd ac a dderbyniwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliant yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sefydlu corff i weinyddu'r cynllun iawndal ar gyfer dioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig o fewn 3 mis i basio'r Ddeddf. Mae'r cymal yn dweud bod rhaid i'r corff gael ei gadeirio gan un o farnwyr yr Uchel Lys neu Lys y Sesiwn fel yr unig un a fydd yn gwneud penderfyniadau. Mae'r cymal yn amlinellu swyddogaethau'r corff ymhellach, yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth bellach am y corff ac yn diffinio dioddefwr y sgandal gwaed heintiedig drwy gyfeirio at Ail Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig.

30. Mae'r dadansoddiad cymhwysedd deddfwriaethol wedi ystyried i ba raddau y gellid sefydlu corff iawndal Cymreig mewn perthynas â Chymru. Felly, nid yw'n ystyried yn uniongyrchol gymal 40 o'r Bil sy'n sefydlu corff ar sail pedair gwlad gan y byddai hyn y tu hwnt i gymhwysedd; fel arall, mae'n ystyried darpariaeth a allai gael yr un effaith i raddau helaeth yng Nghymru, hy un sy'n sefydlu corff iawndal Cymreig. Ystyrir bod cymal 40 o fewn cymhwysedd y Senedd ar y sail nad yw'n sbarduno unrhyw un o'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Hefyd, ystyrir bod y ddarpariaeth yn ymwneud â mater datganoledig iechyd; cefnogir hyn ymhellach gan y ffaith bod y cynllun cymorth *ex-gratia* yng Nghymru yn cael ei redeg gan Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) a'i fod wedi ei sefydlu gan ddefnyddio pwerau iechyd Gweinidogion Cymru a geir yn Neddf y GIG (Cymru) 2006. Felly, mae'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi ei sbarduno.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn y gwelliannau a gyflwynwyd ar 4 Rhagfyr 2023 ac 15 Ionawr 2024 - gwelliannau yr wyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddynt**

*Cymal 20 newydd - Domestic Homicide Reviews*

31. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod diwygio'r diffiniad o adolygiadau dynladdiad domestig, i gyd-fynd â diffiniad Deddf Cam-drin Domestig 2021, yn gam cadarnhaol. Mae'r diffiniad yn ehangach, yn fwy cynhwysfawr, a bydd yn gwella dealltwriaeth drwy gysondeb. Drwy ddiwygio'r diffiniad, mae'n siŵr y bydd nifer yr adolygiadau yn cynyddu. Credwn fod hynny'n cyd-fynd yn well â'n proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd.

32. Er ein bod yn argymell y dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r cymal ar y sail a nodir uchod, byddem wedi hoffi gweld Llywodraeth y DU yn mynd ymhellach a chynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Canllawiau Dynladdiad Domestig.

*Cymal 37 newydd – Prohibited Steps Review*

33. Mae polisi craidd Adolygiad Camau Gwaharddedig yn gysylltiedig â llysoedd, sy'n faes a gedwir yn ôl, ac mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod dim ond mewn perthynas â'r effaith y mae'n ei chael ar awdurdodau lleol.

34. Er bod y ddarpariaeth yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Cymreig Datganoledig i gynnal adolygiadau o orchmynion camau gwaharddedig, ni fyddai'r Senedd yn gallu deddfu i efelychu darpariaeth gwneud y gorchmynion yn y lle cyntaf, gan fod llysoedd yn fater a gedwir yn ôl. Mae'r ddarpariaeth yn cyfyngu ar ba bryd y caiff gorchmynion Camau Gwaharddedig eu gwneud yn awtomatig mewn perthynas â llofruddiaeth neu ddynladdiad anwirfoddol y rhiant arall. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y ddarpariaeth yn cefnogi'r dull Glasbrint Trais yn erbyn Menywod a Merched sydd gennym yng Nghymru yn ogystal â darparu amddiffyniad i blant cyflawnwyr troseddau difrifol.

*Cymal 40 newydd - Compensation for Infected Blood victims*

35. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod budd cyflwyno'r cymal fel y bydd y darpariaethau'n gymwys ar yr un pryd ledled y DU. Er bod cynllun eisoes wedi'i sefydlu yng Nghymru, ffefrir dull pedair gwlad i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyfartal. Rwy'n ystyried defnyddio Bil y DU i ddarparu cyfle pragmatig ac effeithlon i sicrhau darpariaeth gyfartal i bawb sy'n byw gyda chanlyniadau cael eu trin â gwaed heintiedig.

36. Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno gwelliant gan y llywodraeth yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ynghylch sefydlu corff iawndal i ddioddefwyr y sgandal gwaed heintiedig, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet ar ddrafftio'r gwelliant hwnnw.

**Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd ar 4 Rhagfyr 2023 ac 15 Ionawr 2024 - gwelliannau pan na fo'n bosibl eto argymell y dylai'r Senedd roi cydsyniad**

*Cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 - Victims of Criminal conduct – Victims' code*

37. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 19 Mai 2023, nododd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ar y pryd nad oedd Llywodraeth y DU wedi rhoi barn ynghylch a oes angen cydsyniad ar gyfer cymalau 1 i 4, 11, 22 a 23. Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi

egluro ei safbwynt. Mae hi o'r farn nad yw'r cymalau hyn o fewn cymhwysedd y Senedd gan eu bod yn ymwneud â chanfod ac ymchwilio i droseddau, sy'n fater a gedwir yn ôl.

38. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y cymalau o fewn cymhwysedd y Senedd am y rhesymau a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cynharach a osodwyd ar gyfer y Bil Dioddefwyr a Charcharorion. Rydym yn parhau i bryderu y gallai'r Cod Dioddefwyr greu problemau cyfansoddiadol. Nid yw'r gwelliannau a wnaed i'r cymalau yn datrys unrhyw un o'r materion a godwyd yn flaenorol a byddwn yn parhau i gadw ein safbwynt yn ôl tra bod trafodaethau â Llywodraeth y DU yn parhau ar ran un o'r Bil.

*Cymal 15 – Victims of criminal conduct: Guidance about independent domestic violence and sexual violence advisors*

39. Nid yw'r gwelliannau a wnaed i Gymal 15 o'r Bil yn datrys y meysydd pryder a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 19 Mai 2023.

40. Fel y nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 19 Mai 2023, rydym ni o'r farn y dylai unrhyw ganllawiau yng Nghymru gael eu dyroddi gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na Llywodraeth y DU, yn unol â'n cyfrifoldebau datganoledig. Mae partneriaeth Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn rhoi cyfle i ddatblygu ein diffiniadau ein hunain, a gallai bodolaeth canllawiau statudol gan Lywodraeth y DU sy'n gymwys yng Nghymru fod yn ddryslyd a chyfyngol.

41. Mae'r dull yn adlewyrchu ein cymhwysedd datganoledig ar VAWDASV ac yn sicrhau y bydd y sector arbenigol yng Nghymru yn gallu cyfrannu at unrhyw ganllawiau ar y mater.

42. Mae fy swyddogion yn parhau â thrafodaethau â swyddogion Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chymal 15. Diben y trafodaethau hyn yw brocera datrysiad pragmatig sy'n parchu'r Bartneriaeth Genedlaethol a'r strwythur Glasbrint ar gyfer cyflawni nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015. Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU ar Gymal 15 o'r Bil hyd yma, a byddwn yn parhau i gadw ein safbwynt yn ôl ar y cymalau hyn nes bod y trafodaethau wedi dod i ben.

*Cymalau 24-27 a 29-31 – Victims of major incidents: Appointment of independent public advocate*

43. Nid yw'r gwelliannau diweddaraf gan y Llywodraeth i'r cymalau yn cynnwys darpariaethau sy'n gwneud cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol wrth benodi a defnyddio'r eiriolwr ar gyfer dioddefwyr digwyddiadau mawr. Gan y bydd unrhyw eiriolwr yn gweithio mewn maes sydd wedi ei ddatganoli i raddau helaeth y gall y Senedd ddeddfu arno, mae swyddogion

yn credu bod ei hepgor yn golygu na ddylai'r Senedd roi cydsyniad i ran dau o'r Bil ar hyn o bryd.

44. Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gryfhau rôl Gweinidogion Cymru tra'n cynnal cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU ar ran dau o'r Bil hyd yma, a byddwn yn parhau i gadw ein safbwynt yn ôl ar y cymalau hyn nes bod y trafodaethau wedi dod i ben.

**Goblygiadau ariannol**

45. Mae’n bosibl y bydd goblygiadau ariannol ond ni fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

**Casgliad**

46. Ceir darpariaethau yn y Bil hwn yr ydym yn eu croesawu ac sy’n cyd-fynd â’n polisïau. O ran darpariaethau o'r fath, rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymalau hynny, fel y'u rhestrir ym mharagraffau 31 i 36.

47. Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau yn y Bil lle mae Llywodraeth Cymru yn dal ei safbwynt yn ôl tra bod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth y DU, fel a restrir ym mharagraffau 37 i 44.

**Lesley Griffiths AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol**